General Dental Council

# Y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb: ffordd newydd o gyflwyno safonau a chanllawiau i'r tîm deintyddol

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026
© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2026
Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gorff cyhoeddus a grëwyd drwy statud.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0.
I weld y drwydded hon ewch i:
https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

## Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print clir, print bras, neu fformat sain drwy wneud cais.

Dylid anfon pob ymholiad ynglŷn â'r ddogfen hon i'r cyfeiriad isod:

General Dental Council
37 Wimpole Street
Llundain
W1G 8DQ

Ffôn: 020 7167 6000
E-bost: communications@gdc-uk.org
Gwefan: gdc-uk.org

Pan fyddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon dan y Drwydded Llywodraeth Agored, dylech gynnwys y priodoliad a ganlyn: GDC Consultation on a New Framework for Professionalism, trwyddedwyd dan y Drwydded Llywodraeth Agored: https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

# Ymgynghoriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## Hybu Proffesiynoldeb: eich barn ynglŷn â ffordd newydd o gyflwyno safonau a chanllawiau

### Trosolwg

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yn ymgynghori ynglŷn â'i ddull o roi canllawiau i weithwyr deintyddol proffesiynol ynglŷn â'r safonau a ddisgwylir ganddynt. Mae'r cynigion ymgynghori hyn yn llifo o'n strategaeth, Trusted and Effective: A strategy for dental regulation 2026–2028,

Mae'r Strategaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i gyflwyno safonau a chanllawiau proffesiynol sy'n cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i wneud y penderfyniadau iawn, ac i reoleiddio mewn ffordd sy'n hybu diwylliant o ddysgu yn hytrach nag ofn. Credwn fod cleifion yn cael eu diogelu orau pan fydd gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau er pennaf les eu cleifion, a phan fydd rheoleiddio'n gwneud defnydd effeithiol o fesurau rhagofalus i hybu a chefnogi proffesiynoldeb ac ymarfer da.

Un ffordd o gynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddarparu gofal diogel a chynnal hyder y cyhoedd yw drwy ddarparu canllawiau clir a hygyrch am safonau proffesiynol.

O ganlyniad, rydym yn cynnig cyflwyno Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb newydd (y Fframwaith), a fyddai'n cymryd lle'r Safonau presennol *(Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol)*, yn amodol ar ymgynghoriad. Mae'r Fframwaith yn symud oddi wrth safonau manwl, sy'n seiliedig ar reolau, ac yn lle hynny'n gosod Egwyddorion a Disgwyliadau clir. Disgwylir iddo gynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio eu barn broffesiynol mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Dywedasom yn ein Strategaeth ein bod yn ymrwymo i reoleiddio mewn ffordd gefnogol. Yn yr ysbryd hwn, rydym wedi gweithio gyda gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig, cleifion, eu cyrff cynrychioladol, cyrff indemnio ac addysgwyr drwy gydol y broses o ddatblygu'r Fframwaith arfaethedig. O adeiladu ar ymchwil gyda gweithwyr deintyddol proffesiynol a chleifion, i rannu drafftiau cynnar o'r Fframwaith ar hyd y daith ddatblygu, gan gynnwys drwy ymarfer ymgysylltu ar raddfa fawr, rydym wedi holi rhanddeiliaid ynglŷn â dull gweithredu, strwythur a chynnwys y Fframwaith drafft. Rydym wedi defnyddio'r adborth a rannwyd gyda ni i ddylunio fframwaith sy'n cyflwyno safonau a chanllawiau a fydd yn cefnogi ac yn grymuso gweithwyr deintyddol proffesiynol yn well i gymhwyso eu barn broffesiynol, er pennaf les eu cleifion.

Byddai'r Fframwaith yn cael ei gefnogi gan hwb cynnwys ar-lein newydd wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n haws i gael gafael arnynt ac yn haws i'w defnyddio. Byddai'r hwb cynnwys yn dod â gwahanol rannau o'r Fframwaith at ei gilydd mewn un lle ac yn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddeall a chymhwyso'r safonau ymddygiad, perfformiad ac ymarfer a ddisgwylid gan weithwyr proffesiynol cofrestredig. Rhan bwysig o'r Fframwaith, a'r hwb cynnwys, fydd Deunydd Ategol. Bydd y rhain yn cynnwys enghreifftiau ymarferol ac adnoddau i helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i gymhwyso Egwyddorion Proffesiynoldeb mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys hwb cynnwys enghreifftiol a Deunydd Ategol enghreifftiol. Bwriedir i hyn roi profiad o lywio o amgylch y Fframwaith, a dangos sut y mae'n gweithio fel cyfanwaith er mwyn cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddod o hyd i'r canllawiau a'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Rydym yn eich annog i archwilio'r adnodd hwn wrth i chi fynd drwy'r ymgynghoriad.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i brosesau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Er hyn, mae'n bwysig egluro sut y byddai'r Fframwaith yn gweithredu yn y cyd-destun hwnnw. Nid yw'r profion cyfreithiol a'r trothwyon ar gyfer camau rheoleiddio wedi newid, ac o ganlyniad rhaid i'r Fframwaith fod yn ddigon clir i gael ei gymhwyso yn y prosesau hynny. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth am y berthynas hon ac am waith pellach sydd wedi'i gynllunio yn y maes hwn.

Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn newid sylweddol o ran y ffordd rydym yn rhoi canllawiau i weithwyr deintyddol proffesiynol. Os bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i'r cynigion hyn, byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu ac amserlen i gefnogi'r cyfnod pontio.

Rydym yn gofyn am adborth gan weithwyr deintyddol proffesiynol, sefydliadau partner ac aelodau o'r cyhoedd ar y Fframwaith ei hun, gan gynnwys eglurder a pherthnasedd pob cydran, ac a yw'n darparu'r gefnogaeth y mae ar weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig ei hangen er mwyn dangos barn broffesiynol.

## Cyfnod ymgynghori a therfyn amser ar gyfer ymatebion

Dechreuodd yr ymarfer ymgynghori 12 wythnos hwn ar 2 Mehefin 2026.
Y dyddiad cau, neu'r terfyn amser ar gyfer ymatebion, yw 31 Awst 2026.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i: communications@gdc-uk.org.
Ffôn: 020 7167 6330

## Am y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yw rheoleiddiwr proffesiynol y tîm deintyddol yn y DU. Rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y DU.
Rydym yn rheoleiddio'r tîm deintyddol cyfan ledled y DU. Rydym yn ceisio sicrhau diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y gweithwyr deintyddol proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio, sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig a deintyddion.

Ein prif amcan yw diogelu'r cyhoedd, a thrwy wneud hynny:

- Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch, a llesiant y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio.
- Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol a safonau ymddygiad i aelodau o'r proffesiynau hyn.

Dylai pob claf deintyddol fod yn hyderus bod y driniaeth a roddir iddo yn cael ei rhoi gan weithiwr deintyddol proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant priodol, sydd wedi cymhwyso, ac sy'n bodloni ein safonau.
Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn cofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol cymwysedig, yn cyflwyno safonau ar gyfer y tîm deintyddol, yn ymchwilio i bryderon difrifol am addasrwydd gweithwyr deintyddol proffesiynol i ymarfer, ac yn gweithio er mwyn sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol.

# Gwybodaeth am y broses ymgynghori

## Dadansoddi

Byddwn yn defnyddio ystadegau disgrifiadol i ddadansoddi'r cwestiynau caeedig, gan gynnwys dadansoddi is-grwpiau os yw hynny'n briodol. Caiff ymatebion i'r cwestiynau agored eu dadansoddi'n thematig er mwyn nodi'r prif feysydd sydd o ddiddordeb. Pan fyddwn yn dadansoddi ac yn adrodd ar y data byddwn yn ystyried a yw'r ymatebion gan unigolyn ynteu sefydliad.

## Ymateb i'ch barn

Bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymateb i bob barn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad drwy lunio adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Am yr ymgynghoriad hwn

Mae'r arolwg ymgynghori hwn yn cynnwys 20 o gwestiynau, sy'n dechrau ar dudalen 13. Byddem yn annog yr holl ymatebwyr i ddarllen yr wybodaeth yn yr ymgynghoriad cyn ateb y cwestiynau.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro mewn wyth gwahanol adran:

- Adran 1: Ein cynigion
- Adran 2: Egwyddorion Proffesiynoldeb
- Adran 3: Canllawiau Proffesiynol
- Adran 4: Disgwyliadau
- Adran 5: Deunydd Ategol
- Adran 6: Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb
- Adran 7: Y Berthynas rhwng y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb ac Addasrwydd i Ymarfer
- Adran 8: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Am eich ymateb

Mae'n bosibl y caiff crynodeb a dyfyniadau uniongyrchol o ymatebion unigol eu cynnwys yn ein hadroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad, a gall ymatebion gan sefydliadau gael eu priodoli iddynt.

Yr unig reswm rydym yn gofyn am fanylion cysylltu gan unigolion a rhai sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ar ran sefydliad yw er mwyn gofyn cwestiynau am eich ymateb. Yn anaml iawn y mae angen gwneud hyn. Ni fydd enwau a manylion cysylltu personol ymatebwyr yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad, ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi wrth ryddhau gwybodaeth mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth i ni amdanoch chi eich hun drwy gwblhau arolwg dienw. Ni fydd yr wybodaeth hon yn gysylltiedig â'ch ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn defnyddio'r data a roddir gennych ar gyfer gwaith dadansoddi cyffredinol a mewnwelediad i degwch a chynhwysiant ein prosesau. Mae darparu'r data hyn yn fuddiol iawn, a hoffem eich annog i gwblhau'r cam hwn.

I gael manylion ynglŷn â sut rydym yn casglu, storio a phrosesu gwybodaeth, gweler ein hysbysiad preifatrwydd.

Mae gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn agored i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, felly peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth na fyddech yn dymuno iddi gael ei datgelu.

## Ffyrdd o ymateb

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn defnyddiwch y ffurflen ymateb ar-lein.Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn defnyddiwch y ffurflen ymateb ar-lein.
Gallwch hefyd gyflwyno eich ymateb drwy e-bost, gan roi enw'r ymgynghoriad yn llinell pwnc eich e-bost: communications@gdc-uk.org.
Os hoffech gyflwyno eich ymateb drwy'r post, defnyddiwch y cyfeiriad isod:

General Dental Council
Policy and Research Team
37 Wimpole Street
Llundain
W1G 8DQ

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn y Gymraeg.

## Adran Gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Diben creiddiol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw diogelu cleifion a'r cyhoedd, a chynnal hyder yn y proffesiwn deintyddol. Un ffordd o wneud hyn yw drwy gyflwyno safonau clir ar gyfer holl weithwyr deintyddol proffesiynol y DU.

Mae arnom eisiau i bob claf gael ei drin fel unigolyn, gan barchu ei ddiwylliant a'i werthoedd, heb wahaniaethu. Credwn fod gweithwyr deintyddol proffesiynol yn rhoi gwell gofal pan fyddant yn gweithio mewn amgylchedd diogel, teg a chynhwysol—heb wahaniaethu neu ragfarn. Nid dyletswydd gyfreithiol yn unig yw hon; dyma'r peth iawn i'w wneud o ran gweithwyr proffesiynol, cleifion, a'r cyhoedd. Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi meddwl sut y gall y ffordd rydym yn rhoi canllawiau i'r tîm deintyddol gefnogi'r nod hwn.

Er mwyn cynnal ymddiriedaeth ynom fel corff rheoleiddio, rydym yn rhoi cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant wrth graidd ein gwaith. Rydym yn egluro sut rydym yn gwneud hyn yn Strategaeth 2026-28, sy'n ceisio cefnogi proffesiwn sy'n gynhwysol ac yn sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf i bawb.

Lluniwyd y Fframwaith er mwyn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol mewn cysylltiad â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n eu hannog i feddwl am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu penderfyniadau a'u gweithredoedd dyddiol.

Yn Adran 7, rydym yn egluro sut mae'r Fframwaith newydd yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i wneud hynny hefyd.

Rydym hefyd wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Wrth i chi ddarllen yr ymgynghoriad hwn, gofynnwn i chi feddwl a ydym wedi methu rhywbeth ac i rannu eich barn ynglŷn â sut y gallai'r grwpiau hyn gael eu heffeithio.

## Eich ymateb

**SEFYDLIAD NEU UNIGOLYN**

1. A yw eich ymateb yn cynrychioli eich barn bersonol chi, ynteu a ydych yn rhoi ymateb swyddogol sefydliad?
   - Ymateb personol [Ewch i C.4]
   - Ymateb sefydliad [Ewch i C.2]

**CWESTIYNAU DILYNOL I SEFYDLIADAU**

2. Dywedwch wrthym beth yw enw eich sefydliad. [blwch testun]
3. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd arnom angen rhagor o wybodaeth am ymateb eich sefydliad (nid yw hyn yn digwydd yn aml).
   Rhowch gyfeiriad e-bost y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â'r sefydliad. [Ewch at brif gwestiynau'r ymgynghoriad]
   [blwch testun]

**CWESTIYNAU DILYNOL LLUOSOG I UNIGOLION (dileer lle bo angen)**

4. Dywedwch wrthym a ydych (Dewiswch bob un sy'n gymwys):
   - Yn weithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig yn y DU [Ewch i C.5]
   - Yn fyfyriwr neu hyfforddai deintyddol [Ewch i brif gwestiynau'r ymgynghoriad]
   - Yn weithiwr deintyddol proffesiynol cymwysedig ond heb gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hyn o bryd [Ewch i brif gwestiynau'r ymgynghoriad]
   - Yn cael eich cyflogi gan gorff sy'n darparu addysg neu hyfforddiant deintyddol yn y DU [Ewch i brif gwestiynau'r ymgynghoriad]
   - Yn cael eich cyflogi gan gorff rheoleiddio gofal iechyd yn y DU [Ewch i brif gwestiynau'r ymgynghoriad]
   - Yn ddim un o'r uchod [Ewch i brif gwestiynau'r ymgynghoriad]

5. Dywedwch wrthym beth yw eich teitl cofrestredig ac a ydych ar restr arbenigol (Dewiswch bob un sy'n gymwys):
   - Deintydd
   - Nyrs ddeintyddol
   - Hylenydd deintyddol
   - Therapydd deintyddol
   - Technegydd deintyddol
   - Therapydd orthodontig
   - Technegydd deintyddol clinigol
   - Rhestr arbenigol

# Cynnig yr ymgynghoriad

## Cefndir

Un o'r ffyrdd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithio er mwyn cadw cleifion yn ddiogel yw drwy roi canllawiau i weithwyr deintyddol proffesiynol ynglŷn â'r safonau ymddygiad, perfformiad ac ymarfer a ddisgwylir ganddynt.

Mae arnom eisiau sicrhau bod y canllawiau hyn yn gyfredol, yn berthnasol ac yn effeithiol er mwyn cefnogi ymddygiad proffesiynol a dulliau da o wneud penderfyniadau. Mae ein hymchwil a'n gwaith ymgysylltu'n awgrymu y gall dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar egwyddorion fod yn well er mwyn cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ofalu am gleifion. O ganlyniad, rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn rhoi canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n effeithiol ac yn adlewyrchu risgiau newydd a datblygol mewn ymarfer deintyddol.

Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu cleifion yw drwy reoleiddio 'rhagofalus'. Drwy hyn, rydym yn golygu gweithgareddau rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar alluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, drwy roi canllawiau sy'n glir, yn hygyrch ac yn ymarferol. Dylai'r canllawiau hyn gefnogi dulliau da o wneud penderfyniadau a helpu i alluogi gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddarparu gofal o'r safon orau i gleifion a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

Datblygwyd y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb gan ddefnyddio adborth o ymchwil ac ymgysylltu. Drwy gydol y broses ddatblygu rydym wedi cynnwys gweithwyr deintyddol proffesiynol, cyrff indemnio, addysgwyr, cleifion a rhanddeiliaid eraill. Mae eu mewnbwn wedi helpu i siapio'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am gyfrannu eu hamser a'u mewnwelediad.

# Hybu Proffesiynoldeb: eich barn am fframwaith newydd ar gyfer proffesiynoldeb

## Adran 1: Ein cynigion

Rydym wedi edrych yn ofalus ar ein hymchwil, a'r adborth gwerthfawr a gafwyd ar ôl ymgysylltu â gweithwyr deintyddol proffesiynol, y cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig eraill. Credwn fod y Fframwaith yn hyblyg ac yn ystwyth er mwyn rhoi cyfle i weithwyr deintyddol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol, a'i fod yn amlinellu cyfarwyddiadau a ffiniau clir gan y corff rheoleiddio.


Bydd y Fframwaith yn cynnwys yr holl ganllawiau yn ymwneud ag ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a roddir i weithwyr deintyddol proffesiynol gan y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn disgwyl i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol fod yn ymwybodol o'r canllawiau statudol a amlinellir gan y Fframwaith, a'u dilyn, gan ddefnyddio eu barn broffesiynol, a dangos mewnwelediad bob amser. Mae'n bosibl y byddai'n briodol gwyro oddi wrth y canllawiau hyn neu ganllawiau eraill mewn rhai sefyllfaoedd, cyn belled bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad yn glir. Mae rhai canllawiau y mae'n rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol eu dilyn yn ddieithriad. Yn yr achosion hyn, rydym yn nodi hyn yn glir yn y canllawiau eu hunain.

Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys Deunydd Ategol, sy'n set o adnoddau sy'n darparu dehongliad a chyd-destun defnyddiol ond nad ydynt yn cyflwyno gofynion newydd. Wrth i ni fynd drwy'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn nodi'n glir beth yw diben pob elfen o'r Fframwaith, a sut y disgwylir i weithwyr deintyddol proffesiynol ei defnyddio.

Fel yn achos y Safonau presennol, yn ogystal â chanllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig sicrhau eu bod yn deall ac yn dilyn y cyfreithiau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w hymddygiad a'u hymarfer proffesiynol.

Rydym yn cynnig y dylai'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb newydd gynnwys:




Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi barn broffesiynol, rhoi buddiannau cleifion wrth graidd gofal, a chydnabod pwysigrwydd cyd-destun wrth wneud penderfyniadau proffesiynol.

Yn hytrach na dilyn rhestr o reolau, byddai gweithwyr deintyddol proffesiynol yn defnyddio'r Egwyddorion i lywio eu barn a phenderfynu sut i weithredu ym mhob sefyllfa er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'w cleifion.

Yn ychwanegol at ganllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig ddod i wybod am y cyfreithiau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w hymddygiad a'u hymarfer proffesiynol, a'u dilyn.

Yn yr adrannau a ganlyn rydym yn edrych yn fanwl ar bob un o'r elfennau hyn. Nod y Fframwaith newydd yw gwella'r ffordd rydym yn trefnu ein canllawiau i ffurfio adnodd sy'n hawdd ei ddefnyddio, yn ddynamig ac yn ddefnyddiol i weithwyr deintyddol proffesiynol pan fyddant yn chwilio am gyngor neu gymorth wrth wneud penderfyniadau cymhleth.

Yn ogystal ag adolygu ein cynnig, rydym yn eich annog i ymweld â'r hwb cynnwys enghreifftiol. Datblygwyd hwn er mwyn dangos sut y gallai'r Fframwaith weithio yn ymarferol, a sut mae ei gydrannau craidd; yr Egwyddorion, y Disgwyliadau, Canllawiau Proffesiynol, a Deunydd Ategol, yn eistedd gyda'i gilydd dan yr un ymbarél.

Mae'r hwb cynnwys enghreifftiol wedi'i gynllunio er mwyn gwneud y cysylltiadau rhwng y cydrannau hyn yn glir, gan ddangos sut maen nhw'n cysylltu ac yn cefnogi ei gilydd ar draws y Fframwaith. Mae'n dangos sut y gellir trefnu canllawiau mewn ffordd sy'n edrych tua'r dyfodol, sy'n gyson ac yn hawdd i'w dilyn.

Drwy archwilio'r hwb, byddwch yn gweld sut rydym yn gobeithio y bydd y dull gweithredu hwn yn cefnogi dull llywio mwy greddfol, gan helpu gweithwyr cofrestredig i symud rhwng cynnwys perthynol a chael mynediad at ganllawiau perthnasol yn fwy effeithlon. Y nod yw cyflwyno Fframwaith sy'n glir, yn ymarferol ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, caiff y dull gweithredu arfaethedig ei ddatblygu ymhellach a gwneir profion cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

## Adran 2: Egwyddorion Proffesiynoldeb

Wrth greu'r Fframwaith, ein nod oedd rhoi rhyddid i weithwyr deintyddol proffesiynol ddefnyddio eu barn broffesiynol, eu sgiliau a'u profiad i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar bedair Egwyddor Proffesiynoldeb (yr Egwyddorion) sy'n cynrychioli beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr proffesiynol. Bwriedir i'r Egwyddorion hyn fod yn glir ac yn hawdd i'w cadw wrth graidd dulliau gwneud penderfyniadau

proffesiynol. Bwriedir i'r Egwyddorion lywio gweithwyr proffesiynol i gymhwyso eu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, gan gydnabod bod pob claf a sefyllfa'n wahanol.

Wrth ddatblygu'r Egwyddorion hyn, buom yn siarad â gweithwyr deintyddol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd drwy ymchwil wedi'i gomisiynu a phrosesau ymgysylltu, ynglŷn â beth mae proffesiynoldeb yn ei olygu iddyn nhw. Fe wnaethom ddefnyddio'r mewnwelediad hwn i adolygu'r Safonau a'u grwpio i themâu ehangach sy'n mynd at graidd beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr proffesiynol mewn deintyddiaeth. Rydym wedi gwahodd adborth ar yr Egwyddorion hyn drwy gydol eu datblygiad ac rydym yn hapus â'r adborth cadarnhaol rydym wedi'i glywed hyd yn hyn.

Mae arnom eisiau i weithwyr deintyddol proffesiynol gael ymdeimlad o berchnogaeth dros yr Egwyddorion hyn, felly byddwn yn dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol yr ymgynghoriad hwn ac ar ôl hynny er mwyn sicrhau bod yr Egwyddorion yn gweithio'n dda i weithwyr deintyddol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd, addysgwyr, cyrff indemnio a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn deintyddiaeth yn y DU.

**Egwyddorion Proffesiynoldeb**

**Trin cleifion â pharch**

Trin eich cleifion ag urddas a thosturi, gan eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus am eu gofal.

**Ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol**

Defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i ddarparu'r canlyniad iawn i'ch cleifion, bod yn gyfarwydd â'r canllawiau, y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol diweddaraf sy'n effeithio ar eich gwaith, a mynegi barn er mwyn diogelu pobl eraill.

**Cynnal ymddiriedaeth yn y proffesiynau**

Gweithredu yn onest ac yn ddidwyll, gan sicrhau bod eich gweithredoedd yn cynnal ymddiriedaeth cydweithwyr, cleifion, a'r cyhoedd.

**Gweithio mewn partneriaeth ag eraill**

Gweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal yr Egwyddorion hyn a sicrhau amgylchedd effeithiol a chefnogol lle mae diogelwch a llesiant y claf a'r tîm deintyddol yn cael ei ddiogelu.

1. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod rôl yr Egwyddorion yn glir?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

2. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr Egwyddorion yn cofnodi prif feysydd proffesiynoldeb mewn deintyddiaeth.
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

3. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd yr Egwyddorion, pan fyddant yn cael eu cymhwyso gan weithwyr deintyddol proffesiynol, yn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd a chleifion?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

## Adran 3: Canllawiau Proffesiynol

Mae'r Egwyddorion Proffesiynoldeb yn amlinellu'r safonau ymddygiad, perfformiad ac ymarfer sylfaenol sy'n ofynnol gan weithwyr deintyddol proffesiynol ac yn caniatáu lle i farn broffesiynol yn seiliedig ar hyfforddiant a phrofiad.

Mewn rhai achosion, mae angen i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ddweud mwy am bwnc penodol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd. Cyfeirir at y math yma o ganllawiau yn y Fframwaith fel Canllawiau Proffesiynol ac maent yn ymwneud â meysydd lle mae angen i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ddarparu cyfeiriad, rhwymedigaethau neu ffiniau clir.

Mae'r Canllawiau Proffesiynol hyn yn ganllawiau statudol, sy'n golygu bod yn rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol eu deall a'u dilyn, a gellir cyfeirio atynt yn y broses addasrwydd i ymarfer – nid yw hyn yn wahanol i'r model presennol.

Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys rhai canllawiau y mae'n rhaid i chi eu dilyn yn ddieithriad. Yn yr achosion hyn, rydym yn nodi hyn yn glir yn y ddogfen Canllawiau Proffesiynol ei hun.

Canllawiau Proffesiynol:

- Yn ymwneud ag ymddygiad neu ymarfer proffesiynol.
- Gellir eu hystyried mewn prosesau addasrwydd i ymarfer os na chânt eu dilyn.
- Rhaid cynnal ymgynghoriad ffurfiol er mwyn eu cyhoeddi, eu hamrywio neu eu tynnu'n ôl.

Er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn parhau'n hygyrch ac yn glir, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi Canllawiau Proffesiynol dim ond lle mae angen clir. Mae meini prawf wedi cael eu datblygu a'u profi gyda rhanddeiliaid er mwyn helpu i nodi pryd y mae angen Canllawiau Proffesiynol ac er mwyn sicrhau eu bod yn dal i ganolbwyntio ar amcanion statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd a hybu a chynnal hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth. Mewn meysydd sy'n esblygu'n gyflym, gallai cyhoeddi Canllawiau Proffesiynol fod yn llai effeithiol, oherwydd gallai'r ymgynghori helaeth, yr amser datblygu, a'r adnoddau sydd eu hangen olygu bod risg i'r canllawiau ddyddio'n gyflym. Lle nad oes angen Canllawiau Proffesiynol statudol, datblygir Deunydd Ategol i ddarparu gwybodaeth eglurhaol neu ymarferol er mwyn helpu i ddeall y Fframwaith.

Bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn darparu'r Canllawiau Proffesiynol manwl hyn:

- Pan fydd angen cyfeiriad neu ffiniau clir i sicrhau diogelwch cleifion neu i gynnal hyder y cyhoedd a/neu
- Os y Cyngor ei hun yw'r corff sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r canllawiau

Mae'r meini prawf hyn gennym er mwyn adolygu ein canllawiau atodol presennol, a gwybodaeth arall a ddarperir gennym i'r cyhoedd (megis datganiadau sefyllfa).

4. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y meini prawf ar gyfer Canllawiau Proffesiynol yn glir?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

Rydym wedi nodi isod y meysydd y credwn eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod ac a fydd o ganlyniad yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith arfaethedig fel Canllawiau Proffesiynol.

- Canllawiau ar Indemniad Proffesiynol ac Yswiriant (effeithiol 12 Chwefror 2024) – mae'r canllawiau proffesiynol hyn yn egluro'r gofynion sy'n ymwneud â chael cynllun indemnio a fydd yn digolledu cleifion sydd wedi dioddef niwed, os bydd hawliad yn llwyddiannus.
- Canllawiau ar Ddwyn Materion i Sylw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (effeithiol 1 Chwefror 2025) – mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r holl bethau y mae'n rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol roi gwybod amdanynt i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Canllawiau ar Gwmpas Ymarfer (effeithiol 1 Tachwedd 2025) – yn rhoi cyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol gyflawni dim ond y tasgau maen nhw

wedi cael eu hyfforddi i'w gwneud, y maen nhw'n gymwys i'w gwneud, ac wedi cael eu hyswirio i'w gwneud, tra'n cadw o fewn ffiniau eu rôl.

- Canllawiau ar Hysbysebu (effeithiol 30 Medi 2013) – yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol o ran gonestrwydd wrth hysbysebu, ac wrth ddefnyddio teitlau gwarchodedig.
- Canllawiau ar Gyfryngau Cymdeithasol (effeithiol 27 Mehefin 2016) – yn egluro ein gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad ar-lein gweithwyr deintyddol proffesiynol.
- Canllawiau Proffesiynol ar Gydsyniad a Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd.

Mae ein Canllawiau ar Indemniad Proffesiynol ac Yswiriant, Dwyn Materion i Sylw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Chwmpas Ymarfer wedi cael eu diweddaru yn ddiweddar ac maent yn cydnabod pwysigrwydd barn broffesiynol. Os caiff ein cynigion eu derbyn, byddem yn gwneud diweddariadau cyffyrddiad ysgafn i bob un o'r dogfennau hyn er mwyn adlewyrchu'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb, lle maent yn cyfeirio at y Safonau ar hyn o bryd.

Byddem yn gwneud yr un diweddariad cyffyrddiad ysgafn i'r Canllawiau ar Hysbysebu a'r Canllawiau ar Gyfryngau Cymdeithasol; fodd bynnag, gwyddom y byddai'r rhain yn elwa o adolygiad llawnach. Gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig y mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn dibynnu arnynt ar hyn o bryd, rydym yn cynnig eu cynnwys yn y Fframwaith o'r dechrau un, â diweddariad ysgafn i adlewyrchu'r Egwyddorion. Yn y tymor hwy, byddai'r rhain yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn gydnaws â'n dull ehangach o gefnogi proffesiynoldeb mewn deintyddiaeth ac o bosibl yn cael eu cyfuno i ffurfio Canllawiau Proffesiynol ar Gyfathrebu.

Rydym hefyd yn bwriadu creu Canllawiau Proffesiynol newydd ar Gydsynio a Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd. Mae adborth gan gleifion a themâu sy'n dod i'r amlwg o'r broses addasrwydd i ymarfer wedi nodi bod hwn yn faes lle mae angen cyfeiriad neu ffiniau clir er mwyn sicrhau diogelwch cleifion neu gynnal hyder y cyhoedd. Mae cael cydsyniad dilys a chadw cleifion wrth graidd pob penderfyniad a wneir yn hanfodol er mwyn darparu gofal o safon dda i gleifion.

Os bydd y cynigion hyn yn mynd yn eu blaenau, byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar y maes Canllawiau Proffesiynol hwn cyn gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb. Er mwyn gwneud hyn byddem yn ceisio cynnwys cleifion, gweithwyr deintyddol proffesiynol, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill wrth greu'r adnodd hwn.

Rydym yn disgwyl y bydd meysydd ymarfer neu ymddygiad proffesiynol newydd sy'n cyrraedd y trothwy a nodwyd uchod, ac sydd angen datblygu canllawiau proffesiynol ar

eu cyfer, yn cael eu nodi dros gyfnod. Pan fydd hynny'n digwydd, byddwn yn defnyddio'r meini prawf i asesu a oes angen creu ac ymgynghori ar Ganllawiau Proffesiynol newydd.

5. Yn ychwanegol at y meysydd a restrwyd uchod, a oes unrhyw agweddau ar ymarfer neu ymddygiad proffesiynol y credwch eu bod yn bodloni'r meini prawf er mwyn i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyhoeddi Canllawiau Proffesiynol?

## Adran 4: Disgwyliadau

Nodir disgwyliadau dan bob un o'r pedair Egwyddor. Maent wedi cael eu drafftio er mwyn egluro sut y gall gweithiwr deintyddol proffesiynol arddangos neu gynnal yr Egwyddorion. Bwriedir i lefel y manylion daro cydbwysedd rhwng darparu eglurder a chaniatáu digon o gyfle i ffurfio barn broffesiynol, sy'n ganolog i'r Fframwaith hwn.

Datblygwyd y Disgwyliadau drwy ddadansoddi'r dyletswyddau cadarnhaol ar gyfer gweithwyr cofrestredig sydd o fewn y Safonau ar hyn o bryd ac y cyfeirir atynt fel 'Safonau' a 'Chanllawiau.' Wrth ddatblygu'r Disgwyliadau, fe wnaethom hefyd ystyried adborth yn dilyn ymgysylltu ac ymchwil a rhannu Disgwyliadau drafft gyda rhanddeiliaid.

Fel y nodwyd uchod, lle mae camau gorfodol penodol y mae'n rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol eu cymryd, neu ffiniau y mae'n rhaid iddynt gadw atynt, nodir hyn mewn Canllawiau Proffesiynol.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn glir, bydd y Disgwyliadau wedi'u cysylltu'n glir â Chanllawiau Proffesiynol a Deunydd Ategol perthnasol, gan ei gwneud hi'n haws i weithwyr deintyddol proffesiynol ganfod eu ffordd o gwmpas y Fframwaith ehangach a dod o hyd i'r canllawiau y mae arnynt eu hangen ym mhob sefyllfa. Dangosir hyn yn yr hwb cynnwys enghreifftiol.

Bwriedir i'r Disgwyliadau nodi'r math o ymddygiadau a dulliau gweithredu y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn disgwyl eu gweld. Nid ydynt yn rhestr gyflawn o bob ffordd bosibl y gall gweithiwr deintyddol proffesiynol ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Nodir disgwyliadau dan bob Egwyddor ac maent yn rhoi eglurhad o lawer o'r ffyrdd y gall gweithwyr deintyddol proffesiynol ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Egwyddor honno. Gellir eu dangos mewn ffyrdd amrywiol, a bydd y modd y maent yn gwneud hyn yn seiliedig ar farn broffesiynol, cyd-destun, ac amgylchiadau'r claf.

Fel arfer disgwylir i weithwyr deintyddol proffesiynol fodloni'r Disgwyliadau. Bydd angen defnyddio barn broffesiynol i asesu pa Ddisgwyliadau sy'n berthnasol i sefyllfa a gallu cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth Ddisgwyliad gan gyfeirio at Egwyddor, Disgwyliad neu Ganllawiau Proffesiynol eraill.

Gellir bodloni'r Disgwyliadau mewn ffyrdd gwahanol, gan ddibynnu ar farn y gweithiwr deintyddol proffesiynol, y cyd-destun, ac anghenion a barn y claf unigol a/neu gydweithwyr.

Mae disgwyliadau'n cysylltu elfennau eraill o'r Fframwaith, gan ei gwneud hi'n haws i weithwyr deintyddol proffesiynol ganfod eu ffordd o gwmpas y canllawiau neu'r cynnwys y mae arnynt eu hangen i'w helpu.

Rhestrir y Disgwyliadau isod dan bob Egwyddor:

**Trin cleifion â pharch:**

**Dylid trin cleifion ag urddas a thosturi, gan eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus am eu gofal.**

Fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, disgwylir i chi:

- Drin cleifion fel unigolion a pheidio â gwneud tybiaethau ynglŷn â nhw ar sail sut maen nhw'n edrych neu eu cefndir.
- Bod yn glir, yn amyneddgar, yn llawn empathi, yn garedig, yn barchus, ac yn gwrtais gyda'ch cleifion.
- Gweithio gyda chleifion er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd ynglŷn â'u gofal, gan sicrhau eu bod yn deall a chadw eu hanghenion wrth graidd y broses gwneud penderfyniadau.
- Cyfathrebu'n glir gyda chleifion mewn ffordd y maent yn ei deall ynglŷn ag opsiynau perthnasol ar gyfer triniaeth, gan gynnwys y costau, risgiau, a buddion cysylltiedig, a chadw eu dewisiadau yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau drwy gydol eu gofal.
- Darparu eglurhad a sail resymegol glir i gleifion ynglŷn â'r gofal arfaethedig, cael cydsyniad dilys cyn dechrau gofalu, ac ym mhob cam o'r driniaeth.
- Sicrhau bod cleifion yn deall pwy sy'n ymwneud â darparu eu gofal, gan gynnwys eu rôl yn y tîm deintyddol.
- Nodi a chefnogi cleifion bregus, gan gynnwys rhai nad ydynt o bosibl yn gallu rhoi cydsyniad eu hunain, a'r rhai sydd angen addasiadau rhesymol ar gyfer eu gofal.
- Bod yn ymwybodol bod rhai cleifion yn bryderus neu'n ofnus ynglŷn â thriniaeth ddeintyddol, ac y gallai'r ffordd rydych chi'n ymddwyn neu'n siarad â nhw effeithio ar y tebygolrwydd y byddant yn gofyn am ofal iechyd y geg.
- Rheoli cwynion gan ddefnyddio polisi clir a hygyrch sy'n grymuso cleifion i roi adborth am eu gofal, a sicrhau eich bod yn gwrando ar yr adborth hwnnw, yn dysgu ohono, ac yn ymateb iddo.
- Cadw gwybodaeth cleifion yn gyfrinachol a pharchu preifatrwydd cleifion.

**Ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol:**
**Defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i ddarparu'r canlyniad iawn i'ch cleifion, bod yn gyfarwydd â'r canllawiau, y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol diweddaraf sy'n effeithio ar eich gwaith, a mynegi barn er mwyn diogelu pobl eraill.**

Gallwch ddangos eich bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol mewn llawer o ffyrdd. Rydym wedi nodi rhai disgwyliadau yn ymwneud ag ymarfer diogel ac effeithiol isod, ond mae'n bwysig cydnabod nad yw'r rhestr hon yn un gyflawn.

Fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, disgwylir i chi:

- Ddarparu gofal sy'n ystyried gofal iechyd a llesiant ehangach claf.
- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymarfer a darparu gofal i'ch cleifion.
- Bod yn ymwybodol o'r holl ganllawiau, deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, fel y maent yn berthnasol i chi fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, a chydymffurfio â hwy, a sicrhau eich bod yn darparu gofal mewn amgylchedd diogel.
- Cadw cofnodion cleifion cyfredol, cyflawn, a chywir sy'n caniatáu i chi a gweithwyr proffesiynol eraill eu deall yn glir.
- Wrth ddefnyddio technoleg i gefnogi ymarfer, sicrhau eich bod yn deall eich cyfrifoldeb, y dechnoleg rydych yn ei defnyddio, a'i chyfyngiadau.
- Myfyrio ar eich perfformiad a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Gofyn am adborth gan gydweithwyr a chleifion, a gwrando ar yr adborth hwn, dysgu ohono, a gweithredu arno.
- Cadw eich gwybodaeth a'ch sgiliau'n gyfredol er mwyn datblygu a chynnal eich ymarfer drwy gydol eich gyrfa.
- Deall cwmpas personol a phroffesiynol eich ymarfer, a chyflawni dim ond y tasgau rydych wedi cael eich hyfforddi i'w gwneud, ac rydych yn gymwys ac wedi cael eich indemnio/yswirio i'w gwneud.
- Ystyried eich iechyd meddyliol a chorfforol eich hun a gofyn am gymorth pan fydd arnoch ei angen, gan gynnwys addasu neu gyfyngu ar eich ymarfer yn ôl y galw.
- Sicrhau eich bod chi a'r rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw wedi cael eich hyfforddi mewn argyfyngau meddygol a'ch bod yn deall eu rôl nhw, a bod digon o gefnogaeth lle darperir gofal.
- Dweud pan fyddwch yn gweld rhywbeth yn mynd o'i le er mwyn cefnogi eich cleifion a'ch cydweithwyr a'u diogelu rhag niwed.

**Cynnal ymddiriedaeth yn y proffesiynau:**

**Gweithredu yn onest, ac yn ddidwyll, gan sicrhau bod eich gweithredoedd yn cynnal ymddiriedaeth cydweithwyr, cleifion, a'r cyhoedd.**

Gallwch ddangos eich bod yn cynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn mewn llawer o ffyrdd. Rydym wedi nodi rhai disgwyliadau sy'n ymwneud â chynnal ymddiriedaeth isod, ond mae'n bwysig cydnabod nad yw hon yn rhestr gyflawn.

Fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, disgwylir i chi:

- Roi buddiannau cleifion wrth graidd yr hyn rydych yn ei wneud ac annog pobl eraill i wneud hynny hefyd.
- Byw eich bywyd yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, mewn ffordd sy'n cynnal ymddiriedaeth eich cleifion ynoch, a hyder y cyhoedd i ofyn am ofal iechyd y geg.
- Dangos gonestrwydd, a bod yn agored ac yn dryloyw wrth ryngweithio â chleifion, cydweithwyr, rheoleiddwyr, ac eraill.
- Sicrhau bod eich holl gyfathrebu, â chleifion a phobl eraill, gan gynnwys hysbysebu, yn gywir, yn wir, a heb fod yn gamarweiniol.
- Gweithredu'n deg a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl am unrhyw reswm, gan gynnwys ymhlith pethau eraill, unrhyw nodweddion a warchodir dan y gyfraith.
- Rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a llesiant cleifion drwy gydnabod, ymateb, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.
- Cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol yn y perthnasau sydd gennych gyda chleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd.
- Sicrhau bod gennych drefniadau indemniad neu yswiriant priodol yn eu lle fel bod cleifion yn gallu cael iawndal os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.
- Codi pryderon yn ddi-oed os yw cleifion neu gydweithwyr mewn perygl a chymryd camau i'w diogelu.
- Deall eich dyletswydd i roi gwybod i'r rheoleiddiwr gofal iechyd priodol am bryderon ynglŷn â'ch addasrwydd i ymarfer chi, neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, a'ch dyletswydd i roi gwybod i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol os ydych yn destun gweithdrefnau troseddol neu reoleiddiol yn unrhyw ran o'r byd.
- Cydweithredu ag ymchwiliadau cyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor Gweithredu Deintyddol, yn llawn ac yn fuan, a chydymffurfio ag unrhyw gosbau a allai ddilyn.

**Gweithio mewn partneriaeth ag eraill:**

**Gweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal yr Egwyddorion hyn a sicrhau amgylchedd effeithiol a chefnogol lle mae diogelwch a llesiant y claf a'r tîm deintyddol yn cael ei ddiogelu.**

Gallwch ddangos eich bod yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill mewn llawer o ffyrdd. Rydym wedi nodi rhai disgwyliadau sy'n ymwneud â gweithio gydag eraill isod, ond mae'n bwysig cydnabod nad yw hon yn rhestr gyflawn.

Fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, disgwylir i chi:

- Weithio gyda chydweithwyr er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Trin eich cydweithwyr â pharch, eu cefnogi, a pheidio â'u rhoi mewn sefyllfaoedd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.
- Gweithio gyda chydweithwyr er mwyn datblygu amgylchedd gwaith diwylliannol ddiogel a chynhwysol a rhoi sylw i'w llesiant.
- Deall sgiliau ac arbenigedd (cwmpas ymarfer) y tîm deintyddol cyfan a gweithio gyda phobl eraill mewn ffordd sydd o fudd i'ch cleifion.
- Gweithio fel tîm er pennaf les y claf drwy atgyfeirio a dirprwyo i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gymwys i ddarparu'r gofal sy'n ofynnol a bod yn barod i dderbyn cyfarwyddiadau gan eraill lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod gennych gefnogaeth briodol ar gyfer y gwaith rydych yn ei wneud.
- Gofyn am adborth gan eich cydweithwyr er mwyn gwella eich ymarfer ac ymateb yn adeiladol.
- Bod yn glir ynglŷn â'ch rôl yn y tîm a chyflawni eich cyfrifoldebau'n effeithiol fel cydweithiwr, arweinydd neu reolwr.
- Os ydych yn arwain neu'n rheoli tîm, sicrhau bod gan y rhai rydych yn gweithio gyda nhw gofrestriad ac indemniad priodol, eu bod wedi cael eu hyfforddi i gyflawni eu rôl, a'u bod yn gymwys i wneud hynny.

6. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod diben y Disgwyliadau yn glir?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

7. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Disgwyliadau eu hunain yn glir?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

8. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Disgwyliadau'n cynnwys y meysydd lle dylai'r rheoleiddiwr osod disgwyliadau ar gyfer gweithwyr cofrestredig?
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

## Adran 5: Deunydd Ategol

Mae ychwanegu Deunydd Ategol yn y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb yn rhan ganolog o'n hymrwymiad i gefnogi gweithwyr deintyddol proffesiynol, drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd sy'n eu cynorthwyo wrth iddynt wneud penderfyniadau proffesiynol ac yn eu helpu i ganfod eu ffordd o gwmpas gwahanol sefyllfaoedd.

Yn ystod y broses ymgysylltu, roedd yr adborth a glywsom yn dangos awydd clir i weld y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn darparu adnoddau sy'n cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio eu barn a chymhwyso'r Egwyddorion i'w hymarfer. Mae Deunydd Ategol yn rhan allweddol o'r Fframwaith sy'n dangos sut mae cymhwyso'r Egwyddorion, y Disgwyliadau a'r Canllawiau Proffesiynol yn edrych mewn ffordd ddynamig ac ymatebol. Caiff Deunydd Ategol eu cynllunio er mwyn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddeall sut y gellir cymhwyso pob cydran o'r Fframwaith mewn cyd-destunau amrywiol.

Mae Deunydd Ategol:

- yn gynghorol, neu gefnogol o ran eu natur
- yn gysylltiedig ag Egwyddorion Proffesiynoldeb a'r Disgwyliadau neu'r Canllawiau Proffesiynol
- yn ddeunydd, nad yw ohono'i hun, yn amodol ar gydymffurfiad cyfreithiol neu reoleiddiol gorfodol gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Bydd y Deunydd Ategol yn cyflwyno cynnwys mewn fformatau amrywiol diddorol sydd wedi'u cynllunio er mwyn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i gymhwyso'r Egwyddorion, y Canllawiau Proffesiynol a'r Disgwyliadau mewn gwahanol gyd-destunau, ac nid fel rheolau rhagnodol. Mae enghreifftiau o'r mathau o gynnwys a gynigir yn cynnwys datganiadau, astudiaethau achos, fideos, blogiau, ac adnoddau eraill sy'n dod â'r Fframweithiau yn fyw ac yn sail i wneud penderfyniadau proffesiynol.

Byddwn yn defnyddio Deunydd Ategol fel un o'r ffyrdd i gyflawni ein hymrwymiad yn y Strategaeth i alluogi dysgu. Bwriadwn ddiweddaru a datblygu'r deunyddiau hyn yn rheolaidd, gan ddefnyddio mewnwelediadau a gafwyd o brosesau addasrwydd i ymarfer a sganio'r gorwel am batrymau sy'n datblygu mewn deintyddiaeth. Lle bo'n briodol,

byddwn yn cydweithio â gweithwyr deintyddol proffesiynol, sefydliadau cynrychioladol, a rhanddeiliaid eraill i gydgynhyrchu cynnwys. Byddwn hefyd yn cyfeirio at ganllawiau allanol perthnasol y cyfeirir atynt gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Er mwyn cynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall rôl a defnydd o'r deunyddiau hyn yn y Fframwaith, rydym wedi datblygu hwb cynnwys enghreifftiol. Mae'r efelychiad hwn yn dangos sut y gellid trefnu Deunydd Ategol i fod yn hawdd i'w defnyddio a'u chwilio, gan ddangos ein huchelgais i'r Fframwaith fod yn adnodd dynamig ac ymatebol.

Er mai'r brif gynulleidfa ar gyfer y deunyddiau hyn yw gweithwyr deintyddol proffesiynol, byddant ar gael i'r cyhoedd ac o ganlyniad gallant fod o fudd i addysgwyr, cyrff cynrychioladol, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn deintyddiaeth.

Gellir datblygu Deunydd Cefnogol ar unrhyw bwnc penodol; ond er mwyn sicrhau bod eu pwrpas yn glir, eu bod yn berthnasol i weithwyr proffesiynol deintyddol a'u bod yn cefnogi'r Fframwaith ehangach, rydym wedi datblygu'r meini prawf a ganlyn.

Mae'r angen am Ddeunydd Ategol yn galw am un neu ragor o'r canlynol:

- Yn cael ei godi gan randdeiliaid,
- neu'n cael ei godi yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (drwy batrymau ymchwil, cwestiynau polisi, addasrwydd i ymarfer),
- neu mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg

a rhaid:

- Cael cyswllt clir â'r Egwyddorion, Canllawiau Proffesiynol neu Ddisgwyliadau.
- Peidio â chyflwyno Egwyddorion, Canllawiau Proffesiynol neu Ddisgwyliadau newydd na rhai a fwriadwyd i gymryd eu lle.
- Bod yn gefnogol o ran diben – hynny yw, na fyddant yn cael eu defnyddio fel sail i honiadau addasrwydd i ymarfer.

Mae'n bwysig bod gweithwyr deintyddol proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn gallu adnabod y math yma o ddeunydd yn rhwydd. Er y bydd y fformat yn nodi hynny'n glir, bydd pob darn hefyd yn cynnwys y nodyn a ganlyn.

*Mae'r Deunydd Ategol hyn yn dangos sut y gellir cymhwyso'r Egwyddorion, Canllawiau Proffesiynol, y Disgwyliadau a'r ddeddfwriaeth berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau, a gallant gyfeirio at adnoddau perthnasol. Nid ydynt yn cyflwyno egwyddorion neu ganllawiau newydd ac ni fyddant yn cael eu defnyddio fel sail i honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer.*

9. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod diben y Deunydd Ategol yn glir?
   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

Oherwydd ein bod yn credu bod y Deunydd Ategol mor werthfawr er mwyn dod â'r Fframwaith ehangach yn fyw, byddem yn sicrhau bod cyfres ddatblygedig o Ddeunydd Ategol ar gael yn y dyfodol ar adeg lansio'r Fframwaith yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Roedd y bwriad hwn i roi blaenoriaeth i sicrhau bod Deunydd Ategol yn barod ar gyfer y lansiad yn ystyried ffactorau megis cysondeb â'r Strategaeth bresennol a'i hamcanion, lefel y buddiant cyfreithiol a'r buddiant i randdeiliaid, a'r dwysedd adnoddau y disgwylir y bydd ei angen ar gyfer datblygu.

10. A oes unrhyw bynciau penodol y credwch y dylai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol roi blaenoriaeth iddynt er mwyn cynorthwyo gweithwyr cofrestredig i ddefnyddio'r Fframwaith? [Blwch testun agored]

## Adran 6: Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi egluro ein cynigion ar gyfer y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb newydd, sy'n cyflawni dyletswydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i roi canllawiau i weithwyr deintyddol proffesiynol ynglŷn â'r safonau a ddisgwylir ganddynt er mwyn diogelu cleifion a hybu hyder y cyhoedd yn y tîm deintyddol.

Cynlluniwyd y Fframwaith er mwyn helpu gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddorion wrth wneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau gorau i gleifion. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn symud oddi wrth ddibynnu ar reolau tuag at gefnogi barn broffesiynol.

Byddai'r Fframwaith yn disodli'r Safonau a'r canllawiau atodol presennol â'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Egwyddorion Proffesiynoldeb | Yr Egwyddorion Proffesiynoldeb yw elfennau creiddiol yr hyn mae'n ei olygu i fod yn weithiwr deintyddol proffesiynol. |
| Disgwyliadau | Mae'r Disgwyliadau yn darparu eglurhad o'r ffyrdd niferus y gall gweithwyr deintyddol proffesiynol ddangos eu bod wedi cynnal yr Egwyddorion. |
| Canllawiau Proffesiynol | Mae'r Canllawiau Proffesiynol yn ddogfennau sy'n gosod cyfeiriad clir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar bwnc penodol lle mae angen ffiniau neu rwymedigaethau clir. |
| Deunydd Ategol | Mae Deunydd Ategol yn darparu eglurhad ychwanegol a chyd-destun ar gyfer yr Egwyddorion Proffesiynoldeb, Disgwyliadau a Chanllawiau Proffesiynol. Maent wedi'u cynllunio i gefnogi dealltwriaeth, annog myfyrio, a dangos safbwynt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar bynciau penodol neu feysydd o ddiddordeb. |

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad hwn, bwriedir cefnogi'r strwythur arfaethedig drwy ddatblygu hwb cynnwys digidol, wedi'i gynllunio er mwyn dod â gwahanol gydrannau o'r Fframwaith at ei gilydd mewn ffordd glir, gydlynol a hygyrch. Byddai'r hwb yn cynorthwyo defnyddwyr i ganfod eu ffordd yn haws o gwmpas Egwyddorion, Disgwyliadau, Canllawiau Proffesiynol a Deunydd Ategol, gan helpu i adlewyrchu'r ffordd y mae'r elfennau hyn yn cysylltu ac yn cael eu cymhwyso yn ymarferol.

11. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb newydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion a hyder y cyhoedd?
    Cytuno'n gryf
    Cytuno
    Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    Anghytuno
    Anghytuno'n gryf
    Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

12. Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
    I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn annog ac yn cefnogi defnyddio barn broffesiynol?
    Cytuno'n gryf
    Cytuno
    Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    Anghytuno
    Anghytuno'n gryf
    Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

13. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i wneud y penderfyniad priodol ar gyfer pob sefyllfa?
    Cytuno'n gryf
    Cytuno
    Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    Anghytuno
    Anghytuno'n gryf
    Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

14. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn darparu ffordd ddefnyddiol o drefnu canllawiau ar gyfer gweithwyr deintyddol cofrestredig?
    Cytuno'n gryf
    Cytuno
    Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    Anghytuno
    Anghytuno'n gryf
    Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

## Adran 7: Y Berthynas rhwng y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb ac Addasrwydd i Ymarfer

Mae gennym ddyletswydd statudol i hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol â'r nod o ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn deintyddol. Un ffordd bwysig o wneud hyn yw drwy osod canllawiau yn ymwneud â'r safonau ymddygiad, perfformiad ac ymarfer a ddisgwylir gan weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig.

Mae ein prosesau addasrwydd i ymarfer wedi'u cynllunio er mwyn cefnogi'r nod hwn drwy bennu a yw gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig. Rydym yn gwneud hyn drwy ystyried yr ymddygiad a ddangoswyd gan weithiwr cofrestredig, difrifoldeb y camymddwyn honedig, ac amgylchiadau penodol pob achos. Mae ein dull gweithredu yn edrych tua'r dyfodol ac yn canolbwyntio ar gynnal hyder mewn gwasanaethau deintyddol drwy gefnogi arferion da a phroffesiynoldeb yn y dyfodol, yn hytrach na cheisio cosbi gweithwyr cofrestredig.

Prif bwrpas ein canllawiau yw hybu a chynnal safonau proffesiynoldeb uchel ar draws y proffesiynau deintyddol. Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y Safonau a chanllawiau atodol, a ddefnyddir gennym er mwyn nodi gofynion ar gyfer ymddygiad gweithwyr deintyddol proffesiynol a'r ffordd y maent yn cyflawni eu rôl glinigol. Rydym wedi darparu llawer o fanylion rhagnodol ynglŷn â chymhwyso'r Safonau yn ymarferol yn y canllawiau sy'n sail iddynt. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, rydym yn cyfeirio at y Safonau yn y broses gwneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer a'r

penderfyniad lle bo hyn yn ddefnyddiol er mwyn dangos lle mae gweithiwr cofrestredig wedi gwyro'n sylweddol oddi wrth y safonau a ddisgwylir.

Dan y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn byddai'r Egwyddorion, y Disgwyliadau a'r Canllawiau Proffesiynol gyda'i gilydd yn ffurfio canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dan y Fframwaith arfaethedig, bydd gweithwyr proffesiynol deintyddol yn defnyddio'r Egwyddorion i lywio eu barn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i sicrhau'r canlyniad iawn i gleifion ar sail amgylchiadau a chyd-destun yr unigolyn, â'r Disgwyliadau'n darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y farn honno.

Mae'r Egwyddorion cyn bwysiced â'i gilydd ac nid ydynt wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol gynnal yr Egwyddorion ym mhob agwedd ar eu hymarfer ac yn eu bywyd personol. Dylai gweithwyr deintyddol proffesiynol ddefnyddio'r Egwyddorion fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan eu defnyddio ochr yn ochr â'u sgiliau, eu profiad a'u barn broffesiynol i benderfynu beth yw'r peth gorau i'w wneud mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Byddwn yn darparu Canllawiau Proffesiynol penodol a manwl lle mae angen sicrwydd yn rhwymedigaethau proffesiynol gweithwyr cofrestredig er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a chynnal hyder y cyhoedd. Gellir cyfeirio at y Canllawiau Proffesiynol hyn mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ochr yn ochr â'r Egwyddorion. Wrth i ni fynd drwy'r ymgynghoriad byddwn yn nodi statws pob rhan o'r Fframwaith.

Mae'r Disgwyliadau'n ffurfio rhan o ganllawiau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gellir cyfeirio atynt mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer fel enghreifftiau o sut gallai gweithiwr deintyddol proffesiynol fod wedi peidio â chydymffurfio â'r Egwyddorion. Fel arfer disgwylir i weithwyr deintyddol proffesiynol fodloni'r Disgwyliadau, ond bydd angen defnyddio barn broffesiynol er mwyn asesu pa Ddisgwyliadau sy'n berthnasol i sefyllfa a gallu cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth Ddisgwyliad drwy gyfeirio at Egwyddor, Disgwyliad neu Ganllawiau Proffesiynol eraill.

Rydym yn deall bod awydd ac angen am fwy o dryloywder ynglŷn â'r berthynas rhwng canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'n prosesau gorfodi. Pe bai ein cynigion yn cael eu derbyn, byddwn yn cyhoeddi eglurhad o'n dull gorfodi a rôl y Fframwaith yn y prosesau hynny er mwyn cefnogi'r broses weithredu.

## Adran 8: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fel rhan o'r ystyriaethau hyn, ac er mwyn bodloni gofynion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym yn sicrhau bod goblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth cynigion newydd yn cael eu hystyried drwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac rydym yn ceisio casglu rhagor o wybodaeth ar effaith y cynigion gan yr ymatebwyr.

Hoffem i chi ystyried a oes gan ein cynigion y potensial i effeithio ar bobl ar sail eu nodweddion gwarchodedig. Sylwer nad oes angen i chi roi gwybodaeth yn ymwneud â'ch nodweddion gwarchodedig i ni er mwyn ateb y cwestiwn hwn. Y nodweddion gwarchodedig a nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran.
- Anabledd.
- Ailbennu rhywedd.
- Priodas a phartneriaeth sifil.
- Beichiogrwydd a mamolaeth.
- Hil.
- Crefydd neu gred.
- Rhyw.
- Cyfeiriadedd rhywiol.

A fyddai unrhyw bobl yn y grwpiau uchod yn wynebu mwy o anghydraddoldebau, heriau neu anawsterau o ganlyniad i newid i fodel seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cyflwyno safonau a chanllawiau i'r tîm deintyddol?

15. Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau yn ymwneud â sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn. [blwch testun agored]

16. A fyddai'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb yn rhoi sylw i unrhyw faterion cydraddoldeb, heriau neu anawsterau presennol rydych yn ymwybodol ohonynt? Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. Os yw'n gymwys, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau yn ymwneud â sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn well. [blwch testun agored]

17. A fyddai'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb? Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. [blwch testun agored]

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 fel bod pobl sy'n siarad, darllen, ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn gallu cael yr un cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg â rhywun sy'n defnyddio Saesneg. Mae hefyd yn ofynnol i ni ystyried effeithiau newidiadau i'r Safonau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae'n bosibl y bydd effeithiau sy'n cael eu hachosi gan y dylanwad y mae'r Fframwaith yn ei gael ar aelodau o'r cyhoedd. O ganlyniad, mae arnom eisiau canfod ac ystyried barn pobl ynglŷn â'r cwestiwn a oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol sy'n cael eu hachosi gan ein cynnig o Fframwaith, ac a oes ffyrdd y gallwn wella'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol.

18. Gan feddwl am yr uchod, a ydych yn meddwl bod y Fframwaith arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol/negyddol/niwtral) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
    Cadarnhaol [blwch testun]
    Negyddol [blwch testun]
    Dim Effaith
    Ddim yn gwybod

19. Gan feddwl am yr uchod, a ydych yn meddwl bod y Fframwaith arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol/negyddol/niwtral) ar drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal?
    Cadarnhaol [blwch testun]
    Negyddol [blwch testun]
    Dim Effaith
    Ddim yn gwybod

20. A ydych yn meddwl bod ffyrdd o wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ein cynnig?

| | Oes | Nac oes | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? | | | |
| Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal? | | | |

## Gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a Dolen

Diolch i chi am gymryd yr amser i rannu eich barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Er mwyn ein helpu i ddeall yn well pwy rydym yn ei gyrraedd a gwella ymgynghoriadau yn y dyfodol, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech gwblhau ein holiadur Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant byr dewisol sydd wedi'i gysylltu isod.

EDI Monitoring Questions

## Atodiad: Rhestr o'r holl gwestiynau

1. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod rôl yr Egwyddorion yn glir?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
2. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr Egwyddorion yn cofnodi prif feysydd proffesiynoldeb mewn deintyddiaeth.
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
3. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd yr Egwyddorion, pan fyddant yn cael eu cymhwyso gan weithwyr deintyddol proffesiynol, yn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd a chleifion?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
4. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y meini prawf ar gyfer Canllawiau
    - Proffesiynol yn glir?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
5. Yn ychwanegol at y meysydd a restrwyd uchod, a oes unrhyw agweddau ar ymarfer neu ymddygiad proffesiynol y credwch eu bod yn bodloni'r meini prawf er mwyn i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyhoeddi Canllawiau Proffesiynol?
6. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod diben y Disgwyliadau yn glir?

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf
- Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

7. I ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno bod y Disgwyliadau eu hunain yn glir?
   - Cytuno’n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno’n gryf
   - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
8. I ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno bod y Disgwyliadau’n cynnwys y meysydd lle dylai’r rheoleiddiwr osod disgwyliadau ar gyfer gweithwyr cofrestredig?
   - Cytuno’n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno’n gryf
   - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]
9. I ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno bod diben y Deunydd Ategol yn glir?
   - Cytuno’n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno’n gryf
   - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda
10. A oes unrhyw bynciau penodol y credwch y dylai’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol roi blaenoriaeth iddynt er mwyn cynorthwyo gweithwyr cofrestredig i ddefnyddio’r Fframwaith? [Blwch testun agored]
11. I ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno y bydd y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb newydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion a hyder y cyhoedd?
   - Cytuno’n gryf
   - Cytuno
   - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   - Anghytuno
   - Anghytuno’n gryf

- Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda
- Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda [blwch testun agored]

12. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn annog ac yn cefnogi defnyddio barn broffesiynol?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda
13. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn cynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol i wneud y penderfyniad priodol ar gyfer pob sefyllfa?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda
14. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb arfaethedig yn darparu ffordd ddefnyddiol o drefnu canllawiau ar gyfer gweithwyr deintyddol cofrestredig?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf
    - Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda
15. Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau yn ymwneud â sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn. [blwch testun agored]
16. A fyddai'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb yn rhoi sylw i unrhyw faterion cydraddoldeb, heriau neu anawsterau presennol rydych yn ymwybodol ohonynt? Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. Os yw'n gymwys, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau yn ymwneud â sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn well. [blwch testun agored]
17. A fyddai'r Fframwaith ar gyfer Proffesiynoldeb yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb? Nodwch pa grwpiau rydych yn meddwl y byddent yn cael eu heffeithio a sut. [blwch testun agored]

18. Gan feddwl am yr uchod, a ydych yn meddwl bod y Fframwaith arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol/negyddol/niwtral) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
    - Cadarnhaol [blwch testun]
    - Negyddol [blwch testun]
    - Dim Effaith
    - Ddim yn gwybod
19. Gan feddwl am yr uchod, a ydych yn meddwl bod y Fframwaith arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol/negyddol/niwtral) ar drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal?
    - Cadarnhaol [blwch testun]
    - Negyddol [blwch testun]
    - Dim Effaith
    - Ddim yn gwybod

20.A ydych yn meddwl bod ffyrdd o wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ein cynnig?

| | Oes | Nac oes | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? | | | |
| Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal? | | | |